Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cerrigydrudion
Ffordd Yr Alwen
Cerrigydrudion
Corwen
Conwy
LL21 9SW

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/06/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Cerrigydrudion wedi ei lleoli ar gyrion pentref Cerrigydrudion yng Nghonwy. Daw'r disgyblion o'r pentref ei hun ynghyd â'r ardal wledig eang o'i chwmpas. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 87 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 12 o oed meithrin. Mae ganddi bedwar dosbarth oed cymysg. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 80% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 25% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Nid oes disgybl â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai 2010. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cerrigydrudion yn 2015-2016 yw £4,318. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £9,616 a'r lleiafswm yw £3,227. Mae Ysgol Gynradd Cerrigydrudion yn 24ain allan o'r 57 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn a'u bod yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi
- disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- yr athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng staff a disgyblion ym mhob dosbarth sy'n creu ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion
- y pennaeth wedi cyfleu'r weledigaeth honno yn llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr
- y staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i gynnig cyfleoedd dysgu ysgogol i ddisgyblion
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- yr ysgol wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n sicrhau dealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- partneriaethau llwyddiannus yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen a sillafu Saesneg disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu her gyson i'r disgyblion o allu uwch

A4 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson

A5 Sicrhau cyfleoedd priodol i aelodau'r uwch dîm rheoli ymgyfarwyddo â, a datblygu ymhellach eu rolau arweinyddol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau gan ddefnyddio iaith raenus a chywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau pan fyddant yn siarad am eu gwaith yn y ddwy iaith. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda chywirdeb, rhuglder, mynegiant a goslef. Gall y rhan fwyaf drafod eu hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn unol â'u hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Maent yn darllen ar goedd yn y Gymraeg gyda chywirdeb a rhuglder, gan ddefnyddio strategaethau priodol er mwyn sefydlu ystyr. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn dda i gywain gwybodaeth, er enghraifft i gefnogi eu gwaith ar swyddogaeth gwahanol rannau o'r corff. Mae'r mwyafrif yn darllen yn gynyddol gywir ac ystyrlon yn Saesneg. Er hyn, mae lleiafrif yn ei chael hi'n anodd ymdopi â geiriau anghyfarwydd. Ar frig yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen Saesneg yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i wahanol gynefinoedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu hyfedredd i ddefnyddio'u geirfa eang ac iaith goeth i ysgrifennu darnau estynedig amrywiol ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n hyderus i gyfoethogi'r gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis geirfa ddiddorol yn Gymraeg ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Fodd bynnag, mae safon sillafu Saesneg lleiafrif o ddisgyblion yn anghyson. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, er enghraifft yn dilyn ymweliad â Choleg y Bala neu wrth ysgrifennu llythyr o gŵyn at Brif Weinidog Cymru. Ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau. Gall y rhan fwyaf ddefnyddio unedau safonol i fesur a phwyso yn gywir. Maent yn defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol, er enghraifft i greu graff am addurniadau Nadolig. Mae gwaith rhesymu mathemateg llawer yn datblygu'n dda ac mae'r rhan fwyaf yn defnyddio arian yn hyderus, er enghraifft yn y siop arddio. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen, ar bapur ac ar gyfrifiannell, i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gymharu prisiau anifeiliaid mewn dwy farchnad. Maent yn trin a dadansoddi data yn hyderus i greu graffiau, er enghraifft wrth ymchwilio i effaith ymarfer corfforol ar guriad y galon. Fodd bynnag, er bod medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, nid ydynt yn eu trosglwyddo'n ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r ychydig ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig wedi tueddu i'w gosod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi tueddu i'w gosod yn y 50% uwch o gymharu gydag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a Chymraeg yn amrywio'n fawr ac nid oes patrwm cyffredinol. Mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol gan amlaf yn y 25% uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar y lefel uwch mae perfformiad disgyblion yn amrywio'n fawr ac nid oes patrwm cyffredinol.

Nid oes patrwm nodedig o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y deiliannau/lefelau disgwyliedig. Yn gyffredinol, mae'r merched yn gwneud yn well na'r bechgyn ar y deilliannau/lefelau uwch.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae bron pob un yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain ac anghyson yw gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i arwain eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol yn parchu barn a llais y disgyblion. Mae gan aelodau'r cyngor ysgol ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol trwy fentrau amrywiol. Er enghraifft, wrth gynnal clwb 'dal i fynd' wythnosol i hybu ffitrwydd disgyblion. Mae'r cyngor wedi trefnu casgliad o gerddoriaeth Gymraeg i'w chwarae yn ystod y Clwb Brecwast i fagu ymwybyddiaeth disgyblion o gerddorion a cherddoriaeth Gymreig. Mae'r aelodau'n trefnu gweithgareddau cyson i godi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn aml yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu cynlluniau gwaith addas a manwl sy'n cyflwyno egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn dda. Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn darparu profiadau ysgogol yn yr ardal allanol sy'n ysgogi brwdfrydedd y disgyblion yn dda ac yn meithrin eu medrau corfforol yn fwriadus. Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir, er enghraifft chwaraeon a choginio, ynghyd â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned at weithgareddau dosbarth, yn cyfoethogi'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei chynllunio a'i phlethu'n lled effeithiol i'w chynlluniau gwaith. Mae hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn effeithiol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn iawn. Gwneir defnydd da o ymwelwyr i hybu ymwybyddiaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth a thraddodiadau lleol a Chymru, er enghraifft trwy efelychu gwaith arlunwyr Cymreig wrth astudio addoldai lleol. Gwneir defnydd effeithiol o ymweliadau, er enghraifft i Ganolfan yr Alwen a'r Brenig a chanolfannau'r Urdd, i gyfoethogi'r profiadau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad a safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau da sy'n hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft trwy hybu gweithgareddau Masnach Deg a chodi arian sylweddol i argyfwng Nepal.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau ac yn holi'r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae gor-gyfarwyddo gan athrawon yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. O ganlyniad, nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu'r gwersi ac maent yn cynnig adborth gwerthfawr iddynt yn amserol. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd, ac mae sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad clir iddynt ar sut i wella'r gwaith. Er hyn, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol. Anghyson yw'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau, er enghraifft medrau darllen disgyblion. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned drefnus a gofalgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd lles disgyblion yn gadarn iawn. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy wasanaethau ysgol a gweithgareddau yn y gymuned. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff fanteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, darperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn effeithiol mewn gweithgareddau corfforol. Mae hyn yn codi hyder disgyblion i drafod pwrpas yr hyn y maent yn ei wneud mewn gwersi ymarfer corff a gemau ar eu ffitrwydd. Mae gweithgareddau allgyrsiol fel y clwb coginio hefyd yn hybu medrau paratoi bwyd iachus yn llwyddiannus.

Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol sy'n cynnwys yr heddlu, nyrs ysgol, therapyddion iaith a seicolegwyr addysg er mwyn sicrhau bod disgyblion yn

derbyn cymorth a chynhaliaeth briodol mewn meysydd pwysig. Enghraifft dda o hyn yw ymweliadau cyson yr heddlu i hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o gadw'n ddiogel. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau yn drwyadl, ac yn galluogi'r staff i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar, a darparu cefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae'r cynlluniau addysg unigol a ddarperir yn fanwl ac yn cynnwys targedau clir. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a chânt eu cynnwys yn llawn yn y broses o greu a gwerthuso'r cynlluniau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus ag iddi ethos cartrefol a chynhwysol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y gymuned hapus a chefnogol sy'n bodoli.

Lleolir yr ysgol ar safle braf ac mae ansawdd yr adeilad yn uchel. Mae'r adeilad yn cynnig digon o le, a gwneir defnydd pwrpasol o bob rhan ohono, gan gynnwys rhannau o'r ardaloedd cymunedol ac o'r adnoddau awyr agored. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd allanol amrywiol i annog disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae'r staff wedi creu amgylchedd dysgu deniadol ac mae arddangosfeydd ym mhob rhan o'r ysgol sy'n dathlu gwaith y disgyblion yn fwriadus. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweiniad pwrpasol y pennaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae ei weledigaeth yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn effeithiol gyda'r staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r trefniadau diweddar i ddatblygu rôl arweinyddol yr uwch dîm rheoli yn canolbwyntio ar godi safonau gwaith a chryfhau'r ddarpariaeth. Er hynny, nid ydynt wedi cael digon o amser i ymsefydlu a chael effaith lawn ar gyraeddiadau disgyblion.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i gynnig cyfleoedd dysgu ysgogol i ddisgyblion. Mae ganddynt ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau cynaliadwy trwy gydweithio cadarnhaol. Llwydda'r holl staff i greu ethos cartrefol, clos sy'n cynnig cyfleodd dysgu ysgogol i ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn effeithiol wrth adnabod cymhwysedd ac arbenigedd athrawon unigol ac, o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau'n synhwyrol.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff yn effeithiol i drafod cynllunio, blaenoriaethau a chynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu'n briodol at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethog ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r mannau sydd angen iddi eu gwella. Mae eu hymweliadau rheolaidd â'r dosbarthiadau yn gymorth iddynt chwarae rôl weithredol wrth fonitro a phennu blaenoriaethau datblygu. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd effeithiol o TGCh i wella medrau ysgrifennu disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a thrafodaethau arfarnol gyda staff a'r llywodraethwyr ynglŷn â safonau a'r ddarpariaeth. Mae'r pennaeth yn sicrhau ei bod yn cynnwys llais yr holl randdeiliaid yn y prosesau o lunio adroddiad hunanarfarnu. Defnyddir y wybodaeth sy'n deillio o'r trefniadau hyn yn effeithiol i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd gwella sydd angen eu blaenoriaethu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn drylwyr ac yn cynnig darlun cywir a gonest o'r ysgol. Mae'r ddogfen yn amlygu'n glir yr agweddau sydd angen sylw penodol er mwyn gwella.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng deilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn fanwl, yn nodi blaenoriaethau perthnasol a chyraeddadwy ac yn cynnwys manylion meini prawf llwyddiant addas, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, amserlen gweithredu, gofynion cyllidol, cyfleoedd hyfforddiant a threfniadau monitro cynnydd. Caiff y cynllun datblygu ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth a'r staff ac mae hyn yn sicrhau bod cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau. Mae camau gweithredu'r cynllun eisoes wedi cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ar wella safon ysgrifennu Saesneg disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau buddiol sy'n ehangu a chyfoethogi profiadau'r disgyblion, ac yn cyfrannu'n dda at godi eu safonau a chefnogi eu lles.

Mae perthynas glos iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn cyfrannu symiau sylweddol o arian bob blwyddyn at brynu adnoddau a chyfarpar er budd y disgyblion. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gref rhieni.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gadarn â’r gymuned leol. Mae ymweliadau disgyblion â’r gymuned a’r defnydd o unigolion lleol i gyfoethogi’r cwricwlwm yn gwneud cyfraniad pwysig i brofiadau’r disgyblion. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a’u balchder yn eu hardal leol. Enghraifft dda o hyn yw’r berthynas gynyddol glos sy’n bodoli rhwng disgyblion a’r henoed sy’n cael cinio’n rheolaidd yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt sgwrsio a rhannu profiadau.

Gweithia’r ysgol yn llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol, gan gynnwys swyddogion yr awdurdod lleol, arbenigwyr cefnogi disgyblion ac asiantaethau allanol. Mae’r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae perthynas dda yn bodoli gyda’r cylch cyn-ysgol sy’n cyfarfod ar dir yr ysgol. O ganlyniad, mae’r disgyblion sy’n mynychu’r dosbarth meithrin yn y bore yn cael cinio yn yr ysgol ac yn cael mynychu’r cylch yn y prynhawn. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda’r ysgol uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio llwyddiannus yn cael eu trefnu ar gyfer disgyblion.

Cydweithia’r ysgol yn bwrpasol gydag ysgolion y dalgylch i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae’r cydweithio hyn yn cynorthwyo’r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae ganddi nifer briodol o athrawon cymwys a chymorthyddion sy’n cydweithio’n dda i gyflwyno’r cwricwlwm diddorol. Maent yn derbyn cefnogaeth reolaidd drwy drefniadau datblygiad proffesiynol cadarn sy’n dylanwadu’n llwyddiannus ar ansawdd yr addysgu a chyflawniad disgyblion.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol ag ysgolion eraill i rannu profiadau ac arfer dda. Mae hyn yn gwella’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae’r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol, gan gynnig cyfleoedd defnyddiol i athrawon gydweithio.

Mae’r amrediad da o adnoddau safonol yn cael eu rheoli’n effeithiol ac mae’r Cyfnod Sylfaen yn elwa’n fawr o’r amgylchedd allanol ysgogol. Mae’r ysgol wedi llwyddo i sefydlu safle diogel, deniadol sy’n ehangu profiadau disgyblion yn dda.
Mae’r pennaeth, gyda chymorth y llywodraethwyr ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, yn monitro ac yn rheoli’r cyllid yn ofalus gan sicrhau bod cysylltiad agos yn bodoli â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r defnydd a wneir o’r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r ychydig ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn cinio am ddim. Enghraifft dda yw’r modd y mae’r ysgol yn defnyddio TGCh er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion hyn.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622123 - Ysgol Cerrigydrudion**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 2.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 11 | 10 | 8 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 81.8 | 80.0 | 75.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | 6 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.9 | 90.0 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 54.5 | 40.0 | 50.0 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.9 | 90.0 | 87.5 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.4 | 30.0 | 12.5 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 10 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.9 | 90.0 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.4 | 50.0 | 50.0 | 63.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622123 - Ysgol Cerrigydrudion**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 2.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 9 | 6 | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 88.9 | 100.0 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 9 | 6 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 77.8 | 100.0 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 9 | 5 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 100.0 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | 69.2 |
| Chwartel meincnod | * | * | * | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 9 | 6 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | 35.7 |
| Chwartel meincnod | * | * | * | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 9 | 6 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 78.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 60.0 | 55.6 | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 41 | 39<br>95%<br>98% | 2<br>5%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 40 | 37<br>92%<br>92% | 3<br>8%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 41 | 40<br>98%<br>97% | 1<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 41 | 39<br>95%<br>97% | 2<br>5%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 41 | 39<br>95%<br>96% | 2<br>5%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 40 | 36<br>90%<br>96% | 4<br>10%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 41 | 40<br>98%<br>99% | 1<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 41 | 39<br>95%<br>98% | 2<br>5%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 41 | 34<br>83%<br>91% | 7<br>17%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 41 | 40<br>98%<br>95% | 1<br>2%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 39 | 19<br>49%<br>77% | 20<br>51%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 40 | 33<br>82%<br>84% | 7<br>18%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 50 | 31 | 18 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 50 | 38 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 50 | 36 | 14 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 45 | 26 | 18 | 1 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 47 | 22 | 24 | 1 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 47% | 51% | 2% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 49 | 26 | 23 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 49 | 30 | 19 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 39 | 15 | 19 | 4 | 1 | 10 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 38% | 49% | 10% | 3% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 48 | 28 | 19 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| | | 60% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 48 | 30 | 17 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 49 | 29 | 20 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 35 | 16 | 16 | 3 | 0 | 13 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 46% | 46% | 9% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 48 | 15 | 26 | 6 | 1 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 31% | 54% | 12% | 2% | | |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 49 | 26<br>53% | 21<br>43% | 2<br>4% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 40 | 14<br>35% | 22<br>55% | 4<br>10% | 0<br>0% | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 46 | 25<br>54% | 21<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 29 | 12<br>41% | 17<br>59% | 0<br>0% | 0<br>0% | 19 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 50 | 28<br>56% | 19<br>38% | 2<br>4% | 1<br>2% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 49 | 32<br>65% | 17<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Jeremy George Turner | Arolygydd Lleyg |
| Steffan Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eirlys Edwards | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.